CYPE(5)-02-21- Papur i'w nodi 2

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddPPIA@senedd.cymru

8 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae eich llythyr yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Anfonodd Helen Mary Jones lythyr tebyg ataf ar ran y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (CWLC) ar 19 Tachwedd ac rwyf wedi drafftio papur tystiolaeth i'w drafod gyda'r pwyllgor ar 14 Ionawr 2021 (wedi'i atodi yn Atodiad A). Mae'r papur yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â chynigion y gyllideb ym maes y Gymraeg fel sydd wedi'u hamlinellu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae'n darparu manylion gwariant arfaethedig ar y Gymraeg yn y ddau MEG ar gyfer 2021-22 er mwyn gweithredu *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* fel a ganlyn:

- Y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn fy mhortffolio i:
  - BEL y Gymraeg
  - BEL Comisiynydd y Gymraeg.
- Y MEG Addysg ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg:
  - BEL y Gymraeg mewn Addysg.

Fel sydd wedi'i nodi yn fy mhapur i'r Pwyllgor CWLC, mae fy nghyllideb i'n ategu cyllideb y Gweinidog Addysg o ran cefnogi gweithgareddau addysgiadol. Mae gan *Cymraeg 2050* dair brif thema:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n ymwneud â gosod cyd-destun a seilwaith briodol i gefnogi themâu 1 a 2.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nod pob un o ymyraethau fy mhortffolio o dan BEL y Gymraeg a BEL Comisiynydd y Gymraeg, yn y pen draw, yw cynyddu defnydd o’r iaith (Thema 2 a 3). Mae’r gyllideb sydd wedi ei neilltuo i’r Gymraeg o dan BEL y Gymraeg mewn Addysg ym mhortffolio’r Gweinidog Addysg yn dueddol o ganolbwyntio ar Thema 1: caffael iaith mewn lleoliadau cyn-ysgol, ysgol ac ôl-16.

Fodd bynnag, mae yna gysylltiadau clir rhwng gwariant pob un o’r tri BEL (er enghraifft y Siarter Iaith a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) gan na all caffael iaith fyth ddigwydd heb gefnogaeth ffactorau eraill. Mae’r ddwy gyllideb yn cydweithio ac rwy’n trafod cynnydd yn erbyn targedau *Cymraeg 2050* gyda’r Gweinidog Addysg, fel gyda nifer o weinidogion eraill ar draws y Llywodraeth, yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod nodau polisi wedi’u halinio.

Dyma felly ddiolch i’r pwyllgor am ei waith wrth graffu ar wariant ar y Gymraeg, a hoffwn eich cyfeirio at y dystiolaeth y gwnes i ei pharatoi ar gyfer y Pwyllgor CWLC, wedi’i chynnwys yn Atodiad A. Yn y papur hwnnw, er hwylustod, fe welwch fod y dystiolaeth wedi’i darparu o dan bob un o gerrig milltir *Cymraeg 2050*.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Copi i: Y Gweinidog Addysg